Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin • Mid and West Wales Safeguarding Adults Board

CWMPAS

# Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig (Hybrid)

# CWMPAS 2/2020

**Dyddiad cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd:**

**15 Ionawr 2024**

**Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion**

**CWMPAS: Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru**

**Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig (Hybrid) Parthed: CWMPAS/2/2020**

**Amlinelliad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad**

*I'w cynnwys yma:*

- *Y cyd-destun cyfreithiol o'r canllawiau y mae'r adolygiad yn cael ei gynnal mewn perthynas ag ef*
- *Amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad*
- *Y cyfnod amser a adolygwyd a pham*
- *Llinell amser gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu fel atodiad*

**Y cyd-destun cyfreithiol:**

Comisiynwyd adolygiad ymarfer oedolion estynedig gan CWMPAS – Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac fe'i cynhaliwyd yn unol â deddfwriaeth statudol a nodir yn adran 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[1] a'r canllawiau cysylltiedig "Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion" (Llywodraeth Cymru, 2016).[2]

Bodlonir y meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn o dan Bennod 7 y canllawiau statudol hyn ar gyfer adolygiadau ymarfer oedolion estynedig:

Rhaid i fwrdd gynnal adolygiad ymarfer oedolion estynedig pan fo oedolyn sy'n wynebu risg ac sydd heb, ar unrhyw adeg yn y chwe mis cyn dyddiad y digwyddiad, fod yn berson y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w ddiogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymchwiliad gan awdurdod lleol:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd

Mae'r meini prawf ar gyfer adolygiadau ymarfer oedolion estynedig wedi'u nodi yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.[3]

Diben yr adolygiad hwn yw nodi dysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-swyddogion wrth archwilio manylion gwaith asiantaethau gydag oedolyn a'i deulu. Bwriad canlyniad adolygiad yw ennyn dysgu proffesiynol a sefydliadol a hyrwyddo gwelliant ar gyfer arfer rhyngasiantaethol yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu'r amgylchiadau a arweiniodd at gynnal yr adolygiad hwn. Mae'n cynnwys argymhellion ynghylch yr hyn y dylid ei wneud yn wahanol i wella arfer yn y dyfodol.

---

[1] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

[2] Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion Amlasiantaethol (Llywodraeth Cymru, 2016)

[3] Mae awdurdod lleol neu bartner perthnasol yn golygu unigolyn neu gorff y cyfeirir ato yn adran 28 o Ddeddf Plant 2004 neu gorff a grybwyllir yn adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad ymarfer oedolion estynedig hwn wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

**Gwybodaeth gyd-destunol berthnasol**

Y mater craidd sy'n sail i'r adolygiad ymarfer oedolion hwn yw diffyg cydymffurfio â rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau statudol[4] gan wasanaeth maethu'r awdurdod lleol ynghylch trefniadau ar gyfer gofal seibiant ym mis Chwefror 2020. Er bod y pwysau amlochrog ar ddarpariaeth faethu, yn genedlaethol, wedi'u nodi ers mwy na degawd, mae glynu at weithdrefnau rheoledig yn hwyluso penderfyniadau diogelu. Yn lle hynny, dysgodd yr adolygiad hwn fod y gwasanaeth maethu, yn y gorffennol, wedi ymateb i'r holl wahanol bwysau gyda diwylliant o wneud penderfyniadau anffurfiol ac ad hoc. Roedd y diwylliant hwnnw wedi gwadu cynnwys gweithwyr proffesiynol allweddol wrth wneud penderfyniadau ac wedi gosod oedolyn ifanc agored i niwed, sy'n destun yr adolygiad ymarfer oedolion hwn, mewn perygl o niweidio plentyn (Plentyn A). Drwy gydol yr adroddiad hwn, cyfeirir at yr oedolyn ifanc fel Oedolyn V (defnyddir V am 'vulnerability') i'n hatgoffa o'i brofiad bywyd gyda gwendidau cymhleth.

Digwyddodd y croestoriad byr ond dwys rhwng bywydau Oedolyn V a Phlentyn A oherwydd penderfyniadau a wnaed gan y rhai â chyfrifoldeb am eu gofal. Roedd yn hanfodol bod gan y broses ddysgu ddull symbiotig a oedd yn galluogi ymarferwyr a rheolwyr i fyfyrio ar sut i ddiwallu anghenion cymhleth, cystadleuol a dargyfeiriol oedolion a phlant agored i niwed gydag adnoddau cyfyngedig. Felly, mae'r adolygiad wedi bod yn un hybrid ei ddyluniad, gyda'r digwyddiadau dysgu yn dod â gweithwyr proffesiynol perthnasol ar draws gwasanaethau oedolion a phlant at ei gilydd. Cwblhawyd dau ddigwyddiad dysgu hybrid, un ar gyfer ymarferwyr ac un ar gyfer eu rheolwyr.

Nid oedd gan Oedolyn V a Phlentyn A unrhyw berthynas flaenorol na rôl ddilynol ym mywyd y llall. Felly, bydd adroddiad adolygiad ymarfer oedolion estynedig ac adroddiad adolygiad ymarfer plant estynedig yn cael eu cwblhau. Eu profiadau nhw yw eu profiadau nhw, a dylid ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r niwed a ddigwyddodd yn annibynnol o bob safbwynt. I'r perwyl hwnnw, ni fydd yr adroddiad adolygiad ymarfer oedolion hwn ond yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am Blentyn A os yw o gymorth i ddeall profiad Oedolyn V. Fodd bynnag, lle ceir dysgu sydd o werth cyfartal, caiff ei gynnwys ym mhob adroddiad. Bydd adroddiad adolygiad ymarfer plant ar wahân yn cael ei gwblhau, gyda ffocws manwl ar anghenion Plentyn A, o'r enw CYSUR 4 2020.

Roedd Oedolyn V wedi bod yn blentyn yn derbyn gofal ac wedi'i leoli gyda theulu maeth hirdymor T ers plentyndod cynnar ac roedd yn oedolyn ifanc agored i niwed ar adeg y digwyddiad a ysgogodd yr adolygiad hwn. Bydd yr adroddiad hwn yn cyflwyno ac yn dadansoddi agweddau cadarnhaol ar ymddygiadau Oedolyn V yn ogystal â'r rhai a greodd wendidau iddo ef ac i eraill o fewn y broses ddysgu. Yn gynnar ym mhlentyndod Oedolyn V, roedd gan yr awdurdod lleol achos i'w ddiogelu, a oedd yn cynnwys ei dynnu o ofal ei rieni biolegol. Fel plentyn yn derbyn gofal, nodwyd bod gan Oedolyn V anghenion o ran ei ddatblygiad gwybyddol ac anhwylder syndrom alcohol y ffetws (FASD) posibl.[5] Drwy gydol ei blentyndod a'i lencyndod, bu'r anghenion hyn yn effeithio ar allu Oedolyn V i gynnal cyfeillgarwch a pherthnasoedd.

Roedd pryderon hirsefydlog am ddatblygiad gwybyddol Oedolyn V a'i ymddygiad dilynol, a chafodd ddiagnosis o anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), ac anhwylder

[4] Canllawiau Statudol – Gwasanaethau Maethu (llyw.cymru)

[5] Mae FASD yn cael ei achosi pan fydd datblygiad ffetws yn cael ei amharu gan alcohol y mae'r fam yn ei yfed. Gall yr effeithiau fod yn gorfforol, yn wybyddol, yn gymdeithasol ac yn emosiynol.

datblygiadol cydsymud (DCD) / dyspracsia. Er y mynegwyd pryder hefyd ei fod yn dangos rhai nodweddion o FASD ac awtistiaeth, nid oedd y rhain yn cyfateb yn ddigonol i'r meini prawf diagnostig. Gan nad oedd holl ymddygiadau niwroddatblygiadol Oedolyn V yn bodloni'r meini prawf diagnostig yn gyfan gwbl, roedd ef a'r rhai a oedd yn gofalu amdano wedi wynebu rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau diagnostig. Parhaodd y rhwystrau hynny i oedolaeth.

Er gwaethaf yr heriau hynny, cwblhaodd Oedolyn V yr ysgol ac roedd wedi dechrau mynychu'r coleg. Mae Oedolyn V yn gerddorol dalentog a gall gyflawni llawer gyda'r sgiliau hyn. Gall ddatblygu sgiliau newydd yn gyflym a datblygodd ddawn ar gyfer gwaith coed.

Yn ei arddegau, roedd gan Oedolyn V hanes hysbys o ymddygiad rhywiol niweidiol tuag at blant iau nag ef ei hun. Yn 2017, cwblhawyd asesiad AIM2 a rhaglen ymyrraeth 12 wythnos. [6] Nodwyd yn adroddiad yr asesiad anghlinigol cynhwysfawr a ddeilliodd o hynny gymhlethdod ei wendidau, ac roedd hanes ei ddatblygiad rhywiol a'i ymddygiad rhywiol niweidiol yn golygu bod angen lefel uchel o oruchwyliaeth arno.

Mae'r adroddiad AIM2 yn nodi bod gallu gwybyddol cyfyngedig Oedolyn V yn golygu ei fod yn llai abl i ddeall yr effaith a gafodd ei ymddygiad ar y rhai yr oedd yn eu herlid. Bryd hynny, cofnodwyd bod Oedolyn V bron yn gwbl ddibynnol ar eraill i'w gadw'n ddiogel nes ei fod yn gallu datblygu ei sgiliau a'i strategaethau mewnol ei hun. Hefyd, cydnabuwyd bod Oedolyn V yn agored i niwed gan eraill a bod ganddo namau cymdeithasol sylweddol, yn enwedig mewn sefyllfaoedd anstrwythuredig. Ar ddiwedd rhaglen ymyrraeth AIM2, ystyriwyd bod Oedolyn V yn risg isel o achosi niwed, gyda chafeat y gallai hyn newid pe bai ei fywyd yn mynd yn ansefydlog.

Chwalodd lleoliad Oedolyn V gyda gofalwyr maeth hirdymor T ac aeth i fyw gyda gofalwyr maeth eraill, ac arhosodd gyda nhw o dan drefniant 'Pan Fydda i'n Barod' Llywodraeth Cymru wrth iddo ddod yn oedolyn. Fel y cyfryw, roedd Oedolyn V yn un a oedd wedi gadael gofal, ac nid oedd y trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' yn ddarostyngedig i reoliadau maethu. Mewn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod', gellir cyffelybu'r berthynas rhwng y cyn-ofalwr maeth ac oedolyn ifanc fel landlord a thrwyddedai a waharddwyd. Gellir gofyn i'r oedolyn ifanc adael yr eiddo heb fod angen i'r gofalwr wneud cais am orchymyn troi allan. Yn ogystal, yn unol â threfniadau 'Pan Fydda i'n Barod', roedd gan Oedolyn V gynllun llwybr a chynghorydd personol.

Bu'r cynghorydd personol yn cefnogi Oedolyn V i gadw ei le yn y coleg. Roedd y coleg wedi cynnal asesiad risg o allu Oedolyn V i ddysgu'n ddiogel mewn amgylchedd gwaith coed lle'r oedd offer miniog. Fodd bynnag, ni wnaed asesiad risg o'r ymddygiad rhywiol niweidiol posibl y gallai ei achosi i eraill. Mae'r coleg wedi ystyried, oherwydd bod Oedolyn V yn camddefnyddio alcohol a chyffuriau, y gallent fod wedi ei atal yn gynharach. Fodd bynnag, defnyddiwyd eu cymorth lles yn effeithiol, gan gyfathrebu ag Oedolyn V yn gyson a llywio natur gymhleth a chyfnewidiol ei anghenion a'i risgiau. Ymestynnodd y cymorth hwnnw i gyfnod y pandemig COVID-19 gyda'r swyddog lles yn cadw mewn cysylltiad ag Oedolyn V trwy negeseuon testun.

Yn anffodus, daeth ymddygiad Oedolyn V yn fwy o bryder gyda dyfodiad camddefnyddio alcohol a chyffuriau. Roedd yna achlysur pan adroddodd trydydd parti fod Oedolyn V yn cael ei gam-drin gan ei ofalwr maeth, ond pan siaradwyd ag Oedolyn V nid oedd ganddo unrhyw gof o wneud yr

[6] AIM2 yw dull canllaw NICE [NG55] ar gyfer bechgyn 12-18 oed sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Yn nodedig, mae'r canllawiau'n cynnwys nodyn rhybuddiol ar ddefnyddio'r asesiad i ragfynegi ymddygiad troseddol yn y dyfodol pan fydd gan y troseddwr posibl anabledd dysgu.

honiad ac eglurodd ei fod wedi meddwi'n drwm ar y pryd. Ni wnaeth Oedolyn V ailadrodd yr honiad. Yn gymdeithasol ac yn ariannol, roedd Oedolyn V yn fwyfwy agored i gam-fanteisio o fewn y gymuned, ac er bod y cynghorydd personol wedi darparu cymorth ychwanegol, dechreuodd y gwaith o ofalu am Oedolyn V effeithio ar y gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod'. Ceisiodd yr awdurdod lleol gynorthwyo'r trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' a darparwyd gofal seibiant gyda gofalwr maeth seibiant B. Yn anffodus, dechreuodd hithau ei chael yn fwyfwy anodd cynnal ei chymorth a thynnodd yn ôl. Felly, roedd yr awdurdod lleol yn gyfrifol am gynnal oedolyn ifanc yr oedd ei wendidau cymhleth a'i ymddygiadau dilynol wedi cael effaith negyddol ar les ei ofalwyr, heb fawr ddim dewisiadau gofal â chymorth addas wedi'u nodi.

| Allwedd | Diffiniad |
|---|---|
| Gofalwyr Maeth T | Gofalwyr maeth hirdymor ar gyfer Oedolyn V fel plentyn |
| Gofalwr Maeth Seibiant B | Gofalwr maeth seibiant i Oedolyn V |
| Gofalwyr Maeth Seibiant R | Gofalwyr maeth seibiant (lle cafwyd y digwyddiad) |
| Gofalwr Maeth L | Gofalwr maeth hirdymor ar gyfer Plentyn A a'i frawd/chwaer |

**Amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad**

Ym mis Chwefror 2020, gwnaed trefniadau gan wasanaeth maethu'r awdurdod lleol i Oedolyn V gael gofal seibiant gyda gofalwyr maeth seibiant R, a oedd yn ofalwyr profiadol. Cyn hynny, roeddent hefyd wedi maethu pobl ifanc yn eu harddegau, a sawl blwyddyn ynghynt, wedi darparu gofal seibiant i Oedolyn V. Er ei fod yn groes i reoliadau maethu, gwnaed y penderfyniad hwnnw pan ystyriwyd na fyddai gan ofalwyr maeth seibiant R unrhyw blant wedi'u lleoli gyda nhw. Yn ogystal, ar ddiwedd 2019, roeddent wedi bod yn destun adolygiad blynyddol a oedd yn argymell eu bod yn darparu gofal i blant dan 12 oed yn unig ac y dylid cyfyngu hyn i ddau neu dri o blant yn unig ar unrhyw un adeg. Roedd yr argymhelliad hwnnw wedi'i rannu'n eang gan y Swyddog Adolygu Annibynnol[7] ar draws yr adran gwasanaethau plant erbyn mis Chwefror 2020. Yn dilyn tarfiad sylweddol a achoswyd gan ddechreuad pandemig COVID-19 o fis Mawrth 2020, cadarnhaodd y panel maeth y penderfyniad hwn ym mis Mehefin 2020. Fodd bynnag, nid oeddent yn ymwybodol o'r trefniadau seibiant a wnaed ym mis Chwefror 2020.

Ychydig cyn toriad hanner tymor mis Chwefror 2020, cysylltodd y gwasanaeth maethu â gofalwyr maeth R i ofyn iddynt ddarparu gofal seibiant i Blentyn A a'i frawd/chwaer. Yr oedd y trefniadau hyn wedi cael eu trafod yn anffurfiol i ddechrau yn ystod digwyddiad hyfforddi gan yr awdurdod lleol. Roedd gofalwr maeth L, sef gofalwr maeth Plentyn A a'i frawd/chwaer, hefyd yn bresennol yn y digwyddiad hyfforddi a chymerodd ran yn y trafodaethau ond nid oedd yn ymwybodol bod Oedolyn V yn bresennol yn y lleoliad seibiant ar y pryd.

Mae gofalwyr maeth R wedi datgan, ar ôl iddynt ddeall bod y dyddiadau gofal seibiant y gofynnwyd amdanynt ar gyfer Plentyn A a'i frawd/chwaer yn gorgyffwrdd â lleoliad seibiant yr oedolyn ifanc, eu bod wedi gwrthod derbyn y plentyn a'i frawd/chwaer i ddechrau. Roedd lefel uchel anghenion cymorth yr oedolyn ifanc a'r risg o'i ymddygiad rhywiol niweidiol tuag at blant yn hysbys. Yn ôl y sôn, mynegwyd heriau ar lafar i reolwr y gwasanaeth maethu a oedd yn gyfrifol am y penderfyniadau ynghylch lleoliadau seibiant ond ni chawsant eu huwchgyfeirio'n ffurfiol yn unol â pholisïau'r awdurdod lleol. Dywedodd gofalwyr maeth seibiant R eu bod dan bwysau i gytuno i'r cais.

[7] Gweithiwr cymdeithasol profiadol yw Swyddog Adolygu Annibynnol a gyflogir gan awdurdod lleol i graffu ar gynlluniau gofal plant trwy oruchwylio'r broses adolygu.

Yn anffodus, ni chwblhawyd y gweithdrefnau rheoleiddio sy'n ofynnol i bennu priodoldeb penderfyniadau'r gwasanaethau maethu wrth baru plant â lleoliadau. At hynny, ni chafodd cynghorydd personol Oedolyn V na gweithiwr cymdeithasol Plentyn A eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch trefniadau gofal seibiant, gan atal cwblhau asesiad risg pellach. Yr oedd diffyg cydymffurfio â phrosesau maethu rheoledig wedi cyfrannu at benderfyniadau ymarfer a arweiniodd at Oedolyn V yn cael ei leoli lle'r oedd mewn perygl o niweidio plentyn.

Canlyniad arfer yr uchod oedd, am sawl diwrnod ym mis Chwefror 2020, bod Oedolyn V wedi'i leoli gyda gofalwyr maeth seibiant R ochr yn ochr â Phlentyn A a'i frawd/chwaer. Dywedwyd bod y diwrnodau wedi'u llenwi â gweithgareddau yn canolbwyntio ar y plant, gan gynnwys diwrnodau allan lle'r oedd y plant yn cael hwyl ac yn chwarae gyda'i gilydd. Gan gofio'r risg bosibl yr oedd Oedolyn V yn ei chyflwyno, ni adawodd gofalwyr maeth R y plant heb oruchwyliaeth yn ystod y dydd, ond roedd y trefniadau dros nos yn bryder iddynt o ystyried hanes hysbys Oedolyn V. Roedd ganddynt dŷ mawr a gosodwyd Oedolyn V mewn ystafell wely ymhell oddi wrth y ddau blentyn er mwyn lliniaru risgiau posibl. Nid oedd y digwyddiad o niwed sylweddol yn hysbys tan fis Mai 2020, pan ddywedodd Plentyn A wrth ofalwr maeth hirdymor L ei fod wedi cael niwed rhywiol tra'i fod yn y lleoliad seibiant.

**Ymateb i'r datgeliad**

Cyfaddefodd Oedolyn V ei weithredoedd a chafwyd canlyniad amserol o fewn y system gyfiawnder i ganiatáu i Blentyn A a'i frawd/chwaer ddechrau ailadeiladu eu dyfodol. Cafodd Oedolyn V ddedfryd o garchar. Ers hynny, mae Oedolyn V wedi cael ei oruchwylio, mae'n ymwybodol o'r risg y mae ei ymddygiad yn ei chyflwyno, ac mae'n croesawu'r cymorth y mae'n ei gael. Mae anghenion niwroddatblygiadol Oedolyn V yn dal heb gael diagnosis, ond mae bellach yn cael cymorth drwy'r gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion. Ar ôl ystyried ymhellach, penderfynodd Oedolyn V beidio â chymryd rhan yn yr adolygiad ymarfer, ond roedd am rannu'r ffaith ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi yn ei leoliad presennol dan oruchwyliaeth uchel. Mae wedi datblygu gweithgareddau hamdden a strategaethau sy'n ei helpu i reoli ei les meddyliol a chorfforol.

Yn dilyn datgeliad Plentyn A, sicrhaodd yr awdurdod lleol, yr ysgol, yr heddlu, Cafcass Cymru, a'r gwasanaethau iechyd fod pob cam yn cael ei gymryd i ymateb yn effeithiol i effaith drawmatig y gamdriniaeth. Roedd y dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn golygu bod Plentyn A a'i frawd/chwaer yn cael gofal da yn ystod cyfnod ofnadwy. Bu gofalwr maeth hirdymor L, y gweithiwr cymdeithasol a'r heddlu yn cefnogi Plentyn A drwy'r broses sensitif o gasglu'r dystiolaeth orau.

**Y cyfnod adolygu a pham**

Cyn iddo ddechrau, roedd yr adolygiad yn disgwyl canlyniadau'r achosion troseddol a gofal, a alluogodd y Bwrdd i gael mwy o wybodaeth am natur amlochrog y niwed a ddioddefwyd gan Oedolyn V a Phlentyn A. Mae'r amserlen y cytunwyd arni ar gyfer yr adolygiad hwn yn dilyn canllawiau adolygu ymarfer oedolion. Argymhellodd y panel adolygu 12 mis i sicrhau ffocws priodol ar arfer cyfredol adeg y digwyddiad. Roedd y panel adolygu am gynnwys yr amser pan wnaed y datgeliad; felly, canolbwyntiodd yr adolygiad ar y cyfnod rhwng 12 Mai 2019 a 12 Mai 2020. O ystyried natur hybrid yr adolygiad, cafwyd llinellau amser, cronolegau a dadansoddiad sefydliadol ar gyfer Oedolyn V a Phlentyn A gan yr holl asiantaethau. Trafodwyd y cyflwyniadau

hynny'n fanwl yn ystod cyfarfodydd y panel a'r digwyddiadau dysgu ac, ochr yn ochr â chyfraniadau aelodau'r teulu, maent wedi llywio'r hyn a ddysgwyd yn yr adroddiad hwn.

## Proses Adolygu Ymarfer Oedolion

*I'w cynnwys yma yn gryno:*

- *Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y panel adolygu*
- *Cynhaliwyd digwyddiad dysgu, a'r gwasanaethau a fu'n bresennol*
- *Roedd aelodau'r teulu wedi'u hysbysu, gofynnwyd am eu barn, ac fe'u cynrychiolwyd drwy gydol y digwyddiad dysgu, a rhoddwyd adborth iddynt*

**Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y panel adolygu**

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn yn unol â deddfwriaeth statudol a nodir yn adran 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chanllawiau cysylltiedig Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion (Llywodraeth Cymru, 2016).

Comisiynwyd cadeirydd panel annibynnol a dau adolygydd annibynnol a oedd, yn unol â'r canllawiau, yn annibynnol ar y broses o reoli achosion ac roedd ganddynt y profiad, galluoedd, gwybodaeth a sgiliau perthnasol a oedd yn ofynnol gan yr achos a'r amgylchiadau dan sylw. Roedd yr adolygydd arweiniol yn gwbl annibynnol ar Gymru, ac roedd yr ail adolygydd yn gallu darparu cyd-destun a phersbectif rhanbarthol i'r ddysg a nodwyd.

Roedd y panel adolygu yn cynnwys cynrychiolaeth o'r gwasanaethau canlynol, ac roedd pob un ohonynt wedi ymwneud â'r unigolion a oedd yn ganolog i'r adolygiad hwn:

- Gwasanaethau plant ac oedolion yr awdurdod lleol (gan gynnwys maethu)
- Y bwrdd iechyd
- Yr heddlu
- Addysg (gan gynnwys addysg bellach)
- Cafcass Cymru

Cynhaliwyd cyfanswm o ddeg cyfarfod panel.

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad dysgu, sef ar 24 Mai a 25 Mai 2023, fel yr amlinellir yn yr adran uchod. Bu ymarferwyr a rheolwyr o'r holl asiantaethau panel yn bresennol mewn un o'r ddau ddigwyddiad dysgu. Mae'r adolygwyr yn ddiolchgar i'r rhai a fu'n bresennol yn y digwyddiadau dysgu, a fu'n canolbwyntio ar faterion diogelu hollbwysig, am eu cyfraniad amhrisiadwy i'r broses sydd wedi llywio'r ddysg a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae eu parodrwydd i ymgysylltu â dealltwriaeth, myfyrio yn feirniadol, a chwilio am atebion ar gyfer heriau diogelu i'w ganmol.

**Cynnwys y teulu yn yr adolygiad**

Mae cymryd rhan mewn adolygiad ymarfer pan fo plentyn wedi dioddef niwed yng ngofal yr awdurdod lleol yn broses hynod anodd a sensitif i unrhyw riant neu aelod o'r teulu. Yn yr un modd, roedd effaith y digwyddiadau wedi newid bywyd Oedolyn V. Mae'r adolygiad hwn wedi elwa ar gyfranogiad caredig a myfyrdodau meddylgar aelodau'r teulu. Mae'r rhain yn cynnwys gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' Oedolyn V, gofalwr maeth B a gofalwyr maeth R, y mae'r adolygwyr yn

dymuno estyn eu diolch iddynt am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r broses ddysgu. Cyflwynir y safbwyntiau hyn yn adrannau diweddarach yr adroddiad hwn.

**Y digwyddiadau dysgu**

O ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers y digwyddiadau sydd wrth wraidd yr adolygiad hwn, nid oedd yr holl staff a oedd yn gweithio'n uniongyrchol gydag Oedolyn V neu Blentyn A yn dal yn eu swyddi ar adeg y digwyddiadau dysgu. Felly, er bod llawer o weithwyr proffesiynol a oedd wedi gweithio'n uniongyrchol gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn bresennol yn y digwyddiadau, lle'r oedd hyn yn amhosibl ceisiwyd cynrychiolaeth amgen gan weithwyr proffesiynol sydd bellach yn y rolau hynny. Nid oedd yr amser a aeth heibio yn lleihau natur heriol myfyrio ar y digwyddiadau a oedd wrth wraidd yr adolygiad. Roedd yn amlwg bod gweithwyr proffesiynol wedi gweithio'n eithriadol o galed i gefnogi llwybr diogel ymlaen ar gyfer Oedolyn V a Phlentyn A. Rhoddodd y sawl a fu'n bresennol gyfraniadau gwerthfawr i'r broses ddysgu a chawsant fudd o glywed gan ei gilydd am y dysgu a'r cynnydd a wnaed ers i'r niwed ddigwydd. Roedd y rhai a fu'n bresennol yn y digwyddiadau dysgu yn gytûn, yn ymrwymedig ac yn adfyfyriol. Roedd y sawl a fu'n bresennol yn gwerthfawrogi'r cyfle i wrando, rhannu a dysgu o brofiad Oedolyn V, Plentyn A, aelodau'r teulu, a'r asiantaethau a gynrychiolwyd. Rhestrir yr asiantaethau hynny yn y tabl isod.

| Ymarferwyr yn bresennol | Rheolwyr yn bresennol |
|---|---|
| **Yr awdurdod lleol**<br>**Addysg**<br>**Iechyd**<br>**Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass Cymru)**<br>**Yr heddlu** | **Yr awdurdod lleol**<br>**Addysg**<br>**Iechyd**<br>**Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass Cymru)**<br>**Yr heddlu** |

Roedd fformat pob diwrnod yn cynnwys cyflwyniad o broses y digwyddiad dysgu. Roedd yn cyfleu'r ymatebion i'r gwahoddiad i ymateb gan Oedolyn V, Plentyn A, ac aelodau o'r teulu. Rhannwyd yr ymarferwyr yn ddau grŵp i nodi themâu pellach o'r llinell amser, trafod meysydd dysgu, a nodi meysydd o arfer da. Yna daethpwyd â'r grwpiau ynghyd i nodi a rhannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt, wedi'i hwyluso gan gwestiynau yn seiliedig ar y dull arwyddion diogelwch.

1. Beth aeth yn dda, a pha arfer da a nodwyd gennych?
2. Beth allai eich sefydliad fod wedi ei wneud yn wahanol?
3. Beth yw eich pwyntiau dysgu mwyaf?
4. Pa gamau y mae angen i asiantaethau eu cymryd yn eich barn chi i sicrhau bod unrhyw ddysgu yn llywio arfer yn y dyfodol?

Roedd cysondeb rhwng yr ymatebion a roddwyd yn ystod y ddau ddigwyddiad dysgu a'r rhai a ddarparwyd gan gynrychiolwyr yr asiantaethau ar y panel adolygu ymarfer. Bydd y rhain yn cael eu crynhoi isod gan eu bod yn ymwneud ag Oedolyn V.

| **Ymarfer a Dysgu Sefydliadol**<br>*Nodwch bob pwynt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan amlygu arfer effeithiol hefyd) ynghyd ag amlinelliad byr o'r amgylchiadau perthnasol.* |
|---|
| Yn ystod y broses adolygu, derbyniwyd yn eang bod diffyg cydymffurfio â phrosesau rheoleiddio wedi rhoi Oedolyn V mewn sefyllfa lle gallai achosi niwed, er gwaethaf ymdrechion gofalwyr maeth seibiant. Mae'r dadansoddiad a wnaed gan ymarferwyr, rheolwyr ac asiantaethau yn gymorth i ddeall y cyd-destun cefndirol y mae ymarfer yn digwydd ynddo. Mae'r cyfraniadau gwerthfawr gan aelodau'r teulu yn rhoi cipolwg ar eu profiadau sy'n cynorthwyo'r broses ddysgu.<br><br>Tynnwyd y themâu canlynol o'r llinell amser, dadansoddiad yr asiantaethau, y digwyddiadau dysgu, a'r cyfraniadau gan aelodau'r teulu.<br><br>**Pwysigrwydd cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau rheoleiddiol yng nghyd-destun diffyg adnoddau maethu priodol**<br><br>Cadarnhaodd yr adolygiad ymarfer hwn fod y polisïau a gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i reoleiddio'r gwaith o leoli plant a phobl ifanc mewn lleoliadau maeth yn ddiogel. Roedd y polisïau hynny'n cynnwys paru anghenion a chwblhau prosesau asesu risg yn unol â rheoliadau maethu a chanllawiau statudol. Yn anffodus, ni ddilynwyd y rhain yn briodol, a datblygwyd diwylliant ymarfer o fewn y tîm gofal maeth a oedd yn cyfyngu ar ansawdd ac atebolrwydd. Yn fwy penodol, ni ddylai'r ddarpariaeth seibiant ar gyfer oedolyn mewn lleoliad 'Pan Fydda i'n Barod' fod wedi bod mewn darpariaeth gofal maeth. Ymhellach, roedd peidio â dilyn gweithdrefnau wedi atal cyfranogiad y gweithiwr cymdeithasol a'r cynghorydd personol a'u gallu i nodi'r risgiau.<br><br>Mewn ymateb i'r uchod, dilynwyd Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru, gyda'r cyfarfodydd strategaeth yn cael eu cadeirio gan swyddog diogelu o awdurdod lleol gwahanol. Cwblhawyd ymchwiliad diogelu gan weithiwr cymdeithasol annibynnol ac ymdriniwyd â'i ganfyddiadau dilynol. Adolygwyd polisïau a gweithdrefnau, a gweithredwyd argymhellion, gan gynnwys newid yn y strwythur rheoli. Mae'r Gwasanaeth Gofal Maeth, fel y'i gelwir bellach, yn rhan o gyfrifoldeb rheolwyr y Gwasanaethau Uniongyrchol, sy'n rheoli'r holl wasanaethau gofal a reoleiddir yn y cyngor. Mae'r gwasanaeth hwnnw ar wahân i'r Gwasanaeth Diogelu a Gofal a Gynlluniwyd o ran ei strwythur.<br><br>Gellir dadlau, pe na bai prinder gofalwyr maeth profiadol, ni fyddai Plentyn A a'i frawd/chwaer wedi bod ag angen gofal seibiant bryd hynny. Mae gofal maeth yn parhau i fod yn ddewis amgen effeithiol i ofal teuluol i blant na allant fyw gyda'u teuluoedd biolegol. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth honno wedi bod dan straen cynyddol ers dros ddegawd. Yn 2008 (ar dudalen 113), nododd Pithouse a Lowe y canlynol (cyfieithiad o'r Saesneg): *"Yr her unigol fwyaf i faethu cyfoes yng Nghymru yw ennyn niferoedd digonol o ofalwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda a all greu ymlyniadau effeithiol er mwyn hybu gwydnwch plant sydd angen ymdopi ag adfyd a gwrthsefyll ymatebion camweithredol i gamdriniaeth neu esgeulustod."* Er gwaethaf yr ymwybyddiaeth honno, |

mae awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr wedi wynebu mwy o doriadau i wasanaethau[8] trwy fesurau cyni'r llywodraeth[9] ochr yn ochr â chynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Ymhellach, mae'r straen o alwadau croes am wasanaethau gofal maeth, a diffyg argaeledd gwasanaethau gofal maeth, wedi'i waethygu gan gynnydd yng nghymhlethdod anghenion pobl ifanc. Mae'r anghenion lefel uwch hynny'n cael eu parhau gan ostyngiad yn yr adnoddau iechyd meddwl sydd ar gael i blant a'r glasoed, sy'n aml yn gadael gofalwyr maeth yn cynnal plant ag anghenion heb eu diwallu. Daw'r dirwedd bryderus honno'n fwyfwy bregus gan fod llwyth gwaith cynyddol gweithwyr cymdeithasol sy'n goruchwylio hefyd yn golygu bod ganddynt lai o amser i gynorthwyo teuluoedd maeth (Jagger, 2018).

Mae gofalwyr maeth yn dal i gael eu hysgogi i barhau i ofalu er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ym mywyd plentyn. Serch hynny, pan fo anghenion plant yn drech na galluoedd rhieni maeth, efallai y byddant yn teimlo'n llai abl i ymgymryd â'r rôl honno. Mae'r berthynas gefnogol sydd gan ofalwyr maeth â'u gweithiwr cymdeithasol goruchwylio yn allweddol i'w helpu i ymateb yn effeithiol i anghenion y plant. Mae data grŵp ffocws Jagger (2018) yn adlewyrchu'r agosrwydd a welir rhwng gofalwyr maeth a'u gweithwyr cymdeithasol goruchwylio, cymhlethdod cyfathrebu, a'r diffyg grym sy'n gynhenid mewn systemau proffesiynol.

**Safbwyntiau a myfyrdodau teuluol**

**<u>Rhieni biolegol</u>**

Yn anffodus, mae rhieni biolegol Oedolyn V wedi marw.

**<u>Gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod'</u>**

Ymwelodd yr adolygydd arweiniol â'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod', a oedd wedi'i siomi'n arw gan y niwed sylweddol a achoswyd i Blentyn A. Disgrifiodd gymhlethdod gofalu am Oedolyn V, a oedd â sgiliau cerddorol rhyfeddol, ond hefyd effaith gofalu am rywun nad oedd ei anghenion cymhleth wedi cael diagnosis digonol. Disgrifiodd Oedolyn V fel petai wedi'i wahanu braidd oddi wrth gysylltiad rhyngbersonol â realiti. Teimlai fod y mesurau diogelu o amgylch yr unigolyn ifanc yn cyfyngu ar ei ddysgu cymdeithasol gan na chafodd unrhyw ganlyniadau i'w weithredoedd. Eglurodd y gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' fod Oedolyn V yn agored i gael ei gamfanteisio mewn lleoliadau cymdeithasol gyda chyfoedion ac y byddai hefyd yn camddefnyddio alcohol a chyffuriau.

Disgrifiodd y gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' sut yr oedd gofalu am Oedolyn V wedi mynd yn fwyfwy amhosibl. Roedd iechyd y gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' wedi gwaethygu'n sylweddol, a chredai fod y straen o ofalu am yr oedolyn ifanc yn ffactor a gyfrannodd at hynny. Mynegodd euogrwydd a gofid am effaith y niwed sylweddol ar Blentyn A a'r ôl-effeithiau i'r ymarferwyr dan sylw. "*Roedden nhw'n ceisio cael seibiant, roeddwn i ei angen, roeddwn i'n sâl. Roedden nhw rhwng dwy stôl.*" Mae'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' yn datgan bod y ddarpariaeth ym mis Chwefror 2020 gyda gofalwyr maeth seibiant R wedi'i chynllunio ymlaen llaw a'i ddealltwriaeth ef oedd bod Plentyn A a'i frawd/chwaer wedi'u lleoli mewn argyfwng.

[8] https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2019/05/CYM-190725-Analysis-of-Factors-Contributing-to-High-Rates-of-Care-REVISED.pdf
[9] https://www.thefosteringnetwork.org.uk/sites/default/files/2022-03/Cyflwr%20Gofal%20Maeth%20y%20Genedl%202021%20-%20Chwyddwydr%20ar%20Gymru%20-%20CYM%20.pdf

Teimlai'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' fod yr awdurdod lleol yn gweithio'n galed i gefnogi lleoliad yr oedolyn ifanc ac amddiffyn ei lesiant o dan 'Pan Fydda i'n Barod' trwy ddarparu gofal seibiant. Teimlai'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' ei fod wedi cael cefnogaeth dda gan aelodau o'r gwasanaeth maethu ac mae'n parhau i fod yn ofalwr maeth. Fodd bynnag, dywedodd y gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' hefyd nad oedd wedi cael gwybodaeth lawn a manwl am anghenion yr oedolyn ifanc, gan nodi mai dim ond trwy glywed sôn gan ofalwyr maeth eraill y dysgodd am yr ymddygiad rhywiol niweidiol yn y gorffennol.

**<u>Gofalwr maeth seibiant B</u>**

Mae gofalwr maeth seibiant B yn berson hŷn a esboniodd y byddai pobl ifanc yn eu harddegau yn aml yn gweld bod aros gyda hi yn ymdebygu i aros gyda'u mam-gu. Roedd hi wedi darparu gofal seibiant i Oedolyn V am sawl blwyddyn. Dywed pan ddechreuodd ofalu amdano, "*Nid oedd y gwaith papur yn cyfeirio'n llwyr at yr hyn yr oeddech yn ei gael.*" Esboniodd gofalwr maeth seibiant B ei bod wedi dysgu am ymddygiad rhywiol niweidiol yr oedolyn ifanc trwy gyn-ofalwr maeth, a dywedodd, "*Ches i erioed unrhyw beth o'r swyddfa.*"

Disgrifiodd gofalwr maeth seibiant B sut y gallai Oedolyn V fod yn bleserus a gwnaeth baned o de iddi bob amser. Soniodd am ei ddawn gerddorol. Yn anffodus, wrth i amser fynd yn ei flaen, roedd ymddygiad ac anghenion Oedolyn V yn fwy na gallu gofalwr maeth B a gwrthododd gynnig gofal seibiant pellach. Esboniodd gofalwr maeth seibiant B ei bod yn teimlo'n euog am y penderfyniad hwn, ond bod y sefyllfa wedi dod yn anniogel ac anghynaliadwy. Soniodd gofalwr maeth seibiant B hefyd am y dogfennau a'r wybodaeth annigonol a gafwyd am anghenion yr oedolyn ifanc a'i bod hefyd yn dibynnu ar yr wybodaeth a rennid yn anffurfiol rhwng gofalwyr maeth.

**<u>Gofalwyr maeth R</u>**

Roedd gofalwyr maeth R wedi'u cynhyrfu bod Oedolyn V wedi'i roi mewn perygl o achosi niwed a bod Plentyn A wedi cael niwed sylweddol wrth fod yn eu gofal. Roeddent wedi ymgysylltu'n llawn ag Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru a gwnaethant ddisgrifio'n fanwl yr ymdrechion a wnaed i wrthsefyll y pwysau i gael Plentyn A a'i frawd/chwaer a'r oedolyn ifanc yn eu gofal ar yr un pryd. Mae'r digwyddiadau wedi cyfrannu at eu penderfyniad i roi'r gorau i faethu.

**Dysgu – dadansoddi sefydliadol**

- Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer lleoli plant a phobl ifanc mewn lleoliadau maeth, gan gynnwys cydweddu anghenion a phrosesau asesu risg yn unol â rheoliadau maethu a chanllawiau statudol. Fodd bynnag, ni ddilynwyd y gweithdrefnau hyn yn y trefniadau ar gyfer gofal maeth seibiant ym mis Chwefror 2020.

- Ni wnaed unrhyw ddadansoddiad o allu gofalwyr maeth seibiant R i lwyddo i ddarparu gofal i blant neu bobl ifanc dros 12 oed er bod hwn yn argymhelliad diweddar yn eu cofrestriad parhaus ar y pryd. Roedd gofalwyr maeth R hefyd yn ymwybodol bod eu cofrestriad yn newid pan wnaethant gytuno i ofalu am yr oedolyn ifanc.

- Ni ddylai oedolion ifanc mewn lleoliad 'Pan Fydda i'n Barod' fod wedi cael eu rhoi mewn lleoliad gofal maeth ar gyfer seibiant.

**Themâu'r digwyddiadau dysgu**

- Mae tensiwn rhwng anghenion gofalwyr maeth a phlant sy'n derbyn gofal yn amlwg yn y gronoleg. Yn y mater hwn, roedd rhai ymarferwyr yn gweld diffyg eglurder ynghylch pa ran o'r gwasanaeth oedd â'r awdurdod i wneud y penderfyniad terfynol wrth baru plant â lleoliad maeth. Datblygodd gweithdrefnau anffurfiol o fewn y gwasanaeth maethu nad oedd yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau. Rhoddwyd pwysau amhriodol ar ofalwyr seibiant ac ni rannwyd digon o wybodaeth am anghenion a risgiau plant.

- Roedd gan weithiwr cymdeithasol y plant bryderon ynghylch y defnydd o ofal seibiant wrth ymateb i anghenion plant ifanc a oedd wedi wynebu methiant mewn lleoliad mabwysiadol yn ddiweddar. Yn anffodus, ni chafodd y gweithiwr cymdeithasol ei gynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau am y lleoliad seibiant hwn, gan mai'r tîm maethu yn unig a wnaeth y penderfyniad. Felly, ni chafodd y gweithiwr cymdeithasol gyfle i ymweld ymlaen llaw, gan ddod yn ymwybodol o'r penderfyniad ychydig ddyddiau cyn y lleoli. Yn yr un modd, ni hysbyswyd cynghorydd personol yr oedolyn ifanc o'r tîm gadael gofal. Pe bai'r ddau wedi cael manylion llawn y trefniadau gofal seibiant, byddent wedi codi pryderon. Dywedodd yr ysgol hefyd y dylent hwy fod wedi cael gwybod am drefniadau gofal seibiant gan mai nhw yw pwynt cyswllt cyntaf plant ar ôl penwythnos.

**Cyfathrebu ac atebolrwydd: pwysigrwydd rhannu ac uwchgyfeirio pryderon proffesiynol**

Roedd gofalwyr maeth seibiant R yn ymwybodol o risgiau hysbys yr oedolyn ifanc a dywedasant eu bod dan bwysau i ofalu am Blentyn A a'i frawd/chwaer a'r oedolyn ifanc ar yr un pryd, er eu bod wedi gwrthod. Ni wnaethant uwchgyfeirio eu pryderon yn ffurfiol cyn i Blentyn A a'i frawd/chwaer gael eu lleoli ym mis Chwefror 2020. Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi sefydlu Protocol Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol[8] sy'n darparu fframwaith i weithwyr proffesiynol godi pryderon. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y rôl rhianta proffesiynol gymhleth sy'n unigryw i ofalwyr maeth. Er enghraifft, yn yr adolygiad hwn, dynodwyd gofalwyr maeth yn 'deulu' yn hytrach na chael eu cynnwys gydag ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu. Felly, byddai'n ddefnyddiol ystyried adolygu'r protocol hwnnw ac ystyried a ddylid addasu'r iaith a'r fframwaith ar gyfer gofalwyr maeth.

Yn fwy cyffredinol, roedd gweithiwr cymdeithasol Plentyn A wedi eirioli ar ran Plentyn A a'i frawd/chwaer i gael lleoliad maeth nad oedd angen seibiannau, ond nid oedd wedi teimlo ei bod yn cael ei chlywed. Yn ystod y digwyddiad dysgu i ymarferwyr, mynegwyd diffyg eglurder o ran gwneud penderfyniadau ynghylch strwythur y gwasanaeth. Cafwyd yr eglurder hwnnw yn y digwyddiad dysgu i reolwyr, lle esboniwyd yr ailstrwythuro a oedd wedi digwydd. Dylid ystyried creu ffeithlun sy'n esbonio'r protocolau gwneud penderfyniadau yn hawdd ac sy'n amlygu'r llwybrau uwchgyfeirio os bydd pryderon yn codi.

**Safbwyntiau a myfyrdodau teuluol**

Mynegodd pob aelod o'r teulu eu cefnogaeth i'r broses ddysgu er mwyn deall beth oedd wedi arwain at Oedolyn V yn cael ei leoli lle'r oedd mewn perygl o niweidio plentyn, a sut i wella cyfathrebu ac atebolrwydd.

**Dysgu – dadansoddi sefydliadol**

**Yr awdurdod lleol**

- Ategir cyfathrebu cynhwysol hefyd gan gamau gweithredu clir sy'n deillio o drafodaethau a chyd-ddealltwriaeth o'r strwythur gwneud penderfyniadau y tu hwnt i adolygiadau derbyn gofal. Mae adborth i'r rhai sy'n codi pryderon yn bwysig er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed. Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi sefydlu Protocol Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol sy'n esbonio'r broses o uwchgyfeirio pryderon.[10]

- Atgyfnerthu trwy hyfforddiant goruchwylio a chyfleu i staff bwysigrwydd uwchgyfeirio pryderon a'r broses chwythu chwiban pan fo staff yn pryderu am benderfyniadau a wneir mewn perthynas â risg a diogelu.

- Roedd angen i gyfathrebu a llwybrau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd fod yn gliriach wrth leoli oedolion ifanc a phlant o ran y tîm gofal a gynlluniwyd ym maes gwaith cymdeithasol a'r gwasanaeth maethu.

- Collwyd cyfleoedd mewn perthynas â gwneud atgyfeiriadau at y tîm diogelu oedolion pan oedd pryderon ynghylch Oedolyn V yn cael ei gamfanteisio'n ariannol gan bobl eraill.

**Yr awdurdod lleol ac iechyd**

- Gallai pryderon ynghylch lefel dealltwriaeth a gallu Oedolyn V fod wedi cael eu rheoli'n wahanol. Er enghraifft, mae gwasanaethau iechyd wedi dweud nad oedd unrhyw ddilyniant amlwg pan wrthodwyd asesiad o Oedolyn V gan y Tîm Cymunedol Anableddau Dysgu. Cwestiynir a ddylai Oedolyn V fod wedi cael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar gyfer asesiad seicoleg/seiciatreg bryd hynny.

**Yr heddlu**

- Mae'r heddlu'n nodi yn y llinell amser fod yna achlysur lle mae trydydd parti yn adrodd bod yr oedolyn ifanc wedi cael ei gam-drin gan ei riant maeth. Er i'r oedolyn ifanc wadu hyn a datgan, os oedd wedi dweud hynny, yr oedd wedi gwneud hynny pan oedd wedi meddwi'n drwm, nid oes unrhyw gofnod bod yr wybodaeth hon wedi cael ei rhannu gyda'r awdurdod lleol.

- Yn ogystal, mae'r heddlu'n nodi cofnod cudd-wybodaeth sy'n datgan bod yr oedolyn ifanc mewn cysylltiad â phlentyn 13 oed a bod y cyswllt yn un rhywiol. Roedd yn ymddangos nad oedd yr wybodaeth wedi'i chadarnhau, ac nid yw'n hysbys beth a wnaed i geisio cadarnhau hynny, er gwaethaf y ffaith bod Oedolyn V wedi cael rhybuddiad amodol yn 2017 am aflonyddu o natur rywiol.

[10] https://cysur.cymru/media/jykg2sch/mawwsb-resolution-of-professional-differences-protocol-approved-190418-cym.pdf

**Addysg**

- Mae'r coleg yn nodi y gallent fod wedi atal yr oedolyn ifanc yn gynharach oherwydd ei fod dan ddylanwad alcohol a chyffuriau yn y coleg, er eu bod yn nodi y gallai'r penderfyniad fod wedi cael effaith negyddol arno.

**Themâu'r digwyddiadau dysgu**

Yr hyn sy'n amlwg o fewn y cronolegau yw tensiwn rhwng anghenion gofalwyr maeth, plant sy'n derbyn gofal, ac oedolion ifanc mewn lleoliadau 'Pan Fydda i'n Barod'. Yn y mater hwn, roedd rhai ymarferwyr wedi gweld diffyg eglurder ynghylch pa ran o'r gwasanaeth oedd â'r awdurdod i wneud y penderfyniadau terfynol ar leoliadau.

**Cyfathrebu ac atebolrwydd: sut beth yw arfer gorau**

Gwelodd yr adolygiad dystiolaeth o arfer gorau yn yr ymrwymiad a ddangoswyd gan amryw o ymarferwyr a gofalwyr maeth i ddiogelu a chefnogi Oedolyn V. Roedd arferion gwaith rhagorol a chyfathrebu da rhwng ymarferwyr a gofalwyr maeth yn sicrhau bod Oedolyn V yn cael cyfleoedd datblygu o fewn cwmpas ei wendidau cymhleth. Roedd tystiolaeth bod ymarferwyr yn cael cymorth lle gallai eu cymheiriaid ymateb yn effeithiol o fewn disgwyliadau polisïau a gweithdrefnau. Darparodd yr adolygiad hwn gyfleoedd i bob asiantaeth ailedrych ar eu cofnodion ysgrifenedig a chanfuwyd bod y rhain, y tu allan i drefniadau'r gwasanaeth maethu ar gyfer gofal seibiant, mewn trefn dda gydag argymhellion neilltuol yn unig.

Pan effeithir yn negyddol ar wasanaethau gan ffactorau strwythurol megis llai o adnoddau, mae'n rhoi mwy o bwysau ar y rhai sydd ar ôl. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys llai o amser ar gael ar gyfer ymarfer sy'n seiliedig ar berthynas a chreu profiad o neilltuo. Cafodd y ffactorau hynny eu rhwystro ymhellach gan y cyfyngiadau cymdeithasol a fu ar waith oherwydd pandemig COVID-19. Er nad oedd y pandemig yn ffactor i'w ystyried yn ystod y penderfyniadau a wnaed cyn mis Chwefror 2020, fe lesteiriwyd y cyfle ar gyfer ymarfer ar sail perthynas bersonol wedi hynny.

**Safbwyntiau teuluol ar yr hyn a aeth yn dda**

Gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod'

Roedd y gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' yn canmol y cynghorydd personol fel *"dyn hyfryd, gwych"* a aeth gam ymhellach, gan ddarparu cymorth i'r oedolyn ifanc drwy drefnu coleg, cyllid a chyflogaeth wirfoddol iddo. Ar ben hynny, byddai'n mynd y tu hwnt i gwmpas ei rôl i helpu i ddiogelu'r unigolyn ifanc a chefnogi'r lleoliad 'Pan Fydda i'n Barod'.

Teimlai'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' fod yr awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i gefnogi lleoliad yr oedolyn ifanc ac amddiffyn llesiant o dan 'Pan Fydda i'n Barod' trwy ddarparu gofal seibiant. Teimlai'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' ei fod wedi cael cefnogaeth dda gan aelodau o'r gwasanaeth maethu ac mae'n parhau i fod yn ofalwr maeth.

**Dysgu – dadansoddi sefydliadol**

- Roedd gofal sylfaenol yn diwallu anghenion iechyd Oedolyn V ac yn ymateb i bryderon gan ofalwyr ac yn dilyn i fyny yn unol â hynny. Mae tystiolaeth bod y meddyg teulu wedi ymgysylltu ag Oedolyn V ei hun pan gysylltodd y gofalwyr maeth â'r practis meddyg teulu, gan gefnogi ei sgiliau annibyniaeth.

- Bu'r cynghorydd personol yn cydweithio'n agos ag Oedolyn V, ei ofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' a'r coleg i roi cymorth cyson a gwerthfawr, a oedd yn aml yn rhagori ar y disgwyliadau.

- Bu'r heddlu'n gweithio'n dda gydag asiantaethau partner, Oedolyn V a Phlentyn A i sicrhau bod euogfarn yn cael ei rhoi.

- Defnyddiodd y coleg eu cymorth lles yn effeithiol. Parhaodd gweithiwr llesiant Oedolyn V i gyfathrebu ag ef yn rheolaidd, gan lywio natur gymhleth a chyfnewidiol ei anghenion a'i risgiau.

- Dangosodd y coleg arfer da wrth gyfathrebu a rhannu gwybodaeth â gwahanol asiantaethau, gan gyfeirio'n benodol at y cynghorydd personol.

**Themâu'r digwyddiadau dysgu**

- Darparodd y cydweithio rhwng y gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod', y cynghorydd personol a'r coleg ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a oedd yn cefnogi Oedolyn V a'r nodau yn ei gynllun llwybr. Roedd y gwaith partneriaeth amlddisgyblaethol cydlynol yn cefnogi Oedolyn V pan oedd cymhlethdod ei anghenion, ei ymddygiad a'i wendidau yn fwy na gallu trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'.

- Cafwyd trafodaeth am anghenion cymhleth Oedolyn V a sut yr oeddent yn gwarantu math mwy hirdymor o gymorth iddo fel oedolyn, ond bod llwybrau ar gyfer hyn yn aneglur i bobl ifanc heb ddiagnosis meddygol i ategu'r anghenion hynny.

- Mae'r gronoleg yn dangos bod y gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod', y cynghorydd personol a'r gweithiwr lles wedi gweithio'n ddiflino i gefnogi Oedolyn V i lwyddo.

- Yn dilyn y digwyddiad o niwed sylweddol, cefnogwyd Oedolyn V wrth iddo gymryd cyfrifoldeb am ei weithred ac mae'n parhau i gael y cymorth a goruchwyliaeth briodol y mae eu hangen arno.

- Roedd yn fuddiol cynnal y digwyddiad dysgu mewn dull hybrid gan ei fod yn caniatáu gwell dealltwriaeth o anghenion Oedolyn V a Phlentyn A a'r amgylchiadau a arweiniodd at y niwed sylweddol.

## Gwella Systemau ac Arfer

*Er mwyn hyrwyddo'r hyn a ddysgwyd o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd a'r asiantaethau sy'n aelodau ohono a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer gwella:*

1. Atgyfnerthu, drwy oruchwyliaeth, hyfforddiant a chyfathrebu â staff, bwysigrwydd uwchgyfeirio pryderon a'r broses chwythu'r chwiban pan fo pryderon ynghylch penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch risg a diogelu. Adolygu'r protocol hwnnw ac ystyried a ddylid addasu'r iaith a'r fframwaith ar gyfer gofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod' a gofalwyr maeth.

2. Egluro'r broses gwneud penderfyniadau ar gyfer penderfynu ar ofal seibiant pan fo anghenion oedolion ifanc a phlant a gofalwyr yn gwrthdaro.

3. Sicrhau bod ymarferwyr sy'n ymwneud â threfnu gofal seibiant ar gyfer oedolion ifanc mewn lleoliadau 'Pan Fydda i'n Barod' a lleoliadau maeth yn deall rheoli risg a diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed yn llawn er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau paru gyda gwybodaeth lawn o'u hanes.

4. Clinigwyr i fod yn ymwybodol, os nad oes ganddynt fynediad at hanes meddygol cyflawn, y dylent fynd ar drywydd hwn gyda'r cyswllt priodol ar gyfer yr oedolyn sy'n cadw'r wybodaeth honno.

5. Dylid atgoffa gweithwyr iechyd proffesiynol i gofnodi amser a dyddiadau cynnal asesiadau iechyd.

6. Dylai pob gofalwr gael gwybodaeth am anghenion oedolion a phlant sy'n agored i niwed er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion.

7. Mae angen i lwybrau a phrosesau clir fod ar waith i sicrhau bod pobl ifanc sy'n destun y broses cynllunio llwybr ag anghenion cymhleth, heb ddiagnosis meddygol, yn cael eu hasesu ar sail anghenion sy'n ategu gwaith cynllunio'r cyfnod pontio i wasanaethau oedolion yn effeithiol.

8. Yr awdurdod lleol i roi sicrwydd yr ymgynghorir yn llawn ag ymarferwyr a'u bod yn ganolog wrth wneud penderfyniadau ar ddarpariaeth seibiant a pharu – a bod polisïau'n cael eu dilyn.

9. Egluro a ellir defnyddio'r Protocol Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol rhanbarthol ar gyfer anghydfodau mewnol.

<table>
<tr><th colspan="4">Datganiad yr Adolygydd/Adolygwyr</th></tr>
<tr><td>Adolygydd 1</td><td>Dr. Donna Peach</td><td>Adolygydd 2<br>(fel y bo’n briodol)</td><td>Dr. Holly Gordon</td></tr>
<tr><td colspan="2">Datganiad annibyniaeth o’r achos<br>Datganiad cymhwyster sicrwydd ansawdd</td><td colspan="2">Datganiad annibyniaeth o’r achos<br>Datganiad cymhwyster sicrwydd ansawdd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gwnaf y datganiad canlynol, cyn i mi ymwneud â’r adolygiad dysgu hwn:<br><br>• Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â’r plentyn na’r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.<br>• Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol i’r ymarferydd/ymarferwyr dan sylw.<br>• Mae gennyf y cymwysterau, gwybodaeth, profiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso’r materion a nodir yn y cylch gorchwyl.</td><td colspan="2">Gwnaf y datganiad canlynol, cyn i mi ymwneud â’r adolygiad dysgu hwn:<br><br>• Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â’r plentyn na’r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.<br>• Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol i’r ymarferydd/ymarferwyr dan sylw.<br>• Mae gennyf y cymwysterau, gwybodaeth, profiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso’r materion a nodir yn y cylch gorchwyl.</td></tr>
<tr><td>Adolygydd 1<br>(Llofnod)</td><td>D Peach</td><td>Adolygydd 2<br>(Llofnod)</td><td>Holly Gordon</td></tr>
<tr><td>Enw<br>(Printiwch)</td><td>Dr. Donna Peach</td><td>Enw<br>(Printiwch)</td><td>Dr. Holly Gordon</td></tr>
<tr><td>Dyddiad</td><td>21ain Mawrth 2024</td><td>Dyddiad</td><td>21ain Mawrth 2024</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cadeirydd y panel adolygu<br>(Llofnod)</td><td colspan="2">Rebecca Robertshaw</td></tr>
<tr><td colspan="2">Enw<br>(Printiwch)</td><td colspan="2">Rebecca Robertshaw</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad</td><td colspan="2">21ain Mawrth 2024</td></tr>
</table>

## **Atodiad 1:** Cylch Gorchwyl

## Cylch gorchwyl ar gyfer adolygiad ymarfer oedolion estynedig

## CWMPAS 2 2020 (Ceredigion)

- **Arweinydd Diogelu Enwebedig** – Liz Upcott
- **Cadeirydd y Panel Adolygu** – Rebecca Robertshaw
- **Adolygydd (Adolygwyr) Annibynnol** – Dr Donna Peach, Dr Holly Gordon

**Tasgau craidd:**

- Penderfynu a ydyw penderfyniadau a chamau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaethau a enwir a'r Bwrdd.
- Archwilio effeithiolrwydd gweithio rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaeth i'r oedolyn a'r teulu.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu er lles yr oedolyn ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybod iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Cymryd i ystyriaeth unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog sy'n ymwneud â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaeth ar gyfer ymarferwyr a nodi adnoddau angenrheidiol.

**Ar gyfer yr adolygiad estynedig hwn – yn ogystal â'r broses adolygu, rhoi sylw arbennig i'r canlynol:**

- A oedd gwybodaeth berthnasol flaenorol neu hanes am yr oedolyn a/neu aelodau'r teulu yn hysbys ac wedi'i gymryd i ystyriaeth wrth i weithwyr proffesiynol asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r oedolyn, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut y cyfrannodd yr wybodaeth honno at y canlyniad i'r oedolyn.
- A oedd y Cynllun Gofal a Chymorth yn gadarn ac yn briodol i'r oedolyn hwnnw a'i amgylchiadau.
- Effeithiolrwydd cynllunio'r cyfnod pontio.
- A gafodd y cynllun ei weithredu, ei fonitro a'i adolygu'n effeithiol. A wnaeth pob asiantaeth gyfrannu'n briodol at ddatblygu a chyflawni'r cynllun amlasiantaeth.
- Pa agweddau ar y cynllun a weithiodd yn dda, beth na weithiodd yn dda, a pham. I ba raddau y cafodd asiantaethau eu dwyn i gyfrif o ran effeithiolrwydd y cynllun, gan gynnwys cynnydd yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer yr oedolyn.
- A gafodd y protocol ar gyfer datrys anghydfod ei ddefnyddio.
- A gyflawnwyd dyletswyddau statudol priodol asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'r oedolyn a'r teulu.
- A oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a oedd yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried

materion trefniadol a materion cyd-destunol eraill).

**Tasgau penodol y panel adolygu**

- Nodi a chomisiynu adolygwyr i weithio gyda'r *panel adolygu* yn unol â chanllawiau ar gyfer adolygiadau estynedig.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, cynhyrchu llinell amser a chrynodeb achos cychwynnol, a nodi unrhyw gamau dybryd a gymerwyd eisoes.
- Cwblhau gwybodaeth ychwanegol am adolygwyr annibynnol ac aelodaeth y panel.
- Cynhyrchu llinell amser gyfun, dadansoddiad cychwynnol a chanlyniadau dysgu.
- Cynllunio gyda'r adolygwyr ddigwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr, gan gynnwys nodi'r rhai i'w gwahodd i fod yn bresennol a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cynorthwyo cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.
- Cynllunio gyda'r adolygwyr y trefniadau ar gyfer cysylltu â'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried adroddiad drafft yr adolygiad ymarfer oedolion i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni a bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion i'w hystyried a chytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.
- Bydd aelodau'r *panel adolygu* yn glynu at egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 wrth drin gwybodaeth bersonol fel rhan o'r broses adolygu ymarfer oedolion (gweler yr adran ar rannu gwybodaeth a chyfrinachedd).
- Archwilio polisïau penodol sy'n berthnasol i'r adolygiad, gan gynnwys:
  - Y Polisi Paru
  - Datganiad o Ddiben: Maethu
  - Cynllun Gofal Diogel Oedolion / Pobl Ifanc mewn Lleoliad Gofal Maeth / Gofal gan Berthynas
  - Protocol 'Pan Fydda i'n Barod'

**Tasgau penodol yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion:**

- Cytuno a chymeradwyo cylch gorchwyl drafft ar gyfer pob achos a argymhellir ar gyfer adolygiad ymarfer oedolion.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd i'w hystyried a chytuno arnynt.
- Monitro cynlluniau gweithredu'r adolygiad ymarfer oedolion i sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu gweithredu ar ran y Bwrdd.

**Tasgau Bwrdd Diogelu Oedolion CWMPAS**

- Bydd yr Uned Fusnes, ar ran y Bwrdd, yn hysbysu Llywodraeth Cymru am gynnal adolygiad ymarfer oedolion.
- Glynu at amserlenni ar gyfer cwblhau, yn unol â chanllawiau statudol.
- Derbyn a chymeradwyo'n ffurfiol adroddiad terfynol yr adolygiad ymarfer oedolion a'r cynllun gweithredu.

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r Bwrdd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Cadarnhau trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth gan yr Is-grŵp Adolygu, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau gwasanaeth a ragwelir yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio cyhoeddi ar wefan y Bwrdd am o leiaf 12 wythnos ar ôl ei gwblhau.
- Cytuno i'w ddosbarthu i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau cyhoeddus ac ymatebion i ddiddordeb y cyfryngau ynghylch yr adolygiad hyd nes y bydd y broses wedi'i chwblhau.

**Rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd**

Rhaid egluro perchnogaeth yr holl wybodaeth a dogfennaeth er mwyn cael y caniatâd priodol gan y sefydliad perthnasol cyn rhannu. Dim ond gwybodaeth y maent yn berchen arni neu wybodaeth sy'n tarddu ganddynt hwy y gall sefydliadau ei rhannu.

Dylai'r cyfrifoldeb am ofyn am wybodaeth gan bob sefydliad (gan gynnwys gan ddarparwyr annibynnol) gael ei egluro a'i gytuno gan y panel, fel y bo'n briodol.

Bydd datganiad cyfrinachedd (fel isod) yn cael ei lofnodi ym mhob cyfarfod o'r panel gan bawb sy'n bresennol i ailddatgan y ffiniau ar gyfer rhannu gwybodaeth:

- Wrth weithio gyda gwybodaeth sensitif mewn perthynas ag adolygiad ymarfer oedolion, mae pob asiantaeth wedi cytuno ar y ffiniau o ran cyfrinachedd. Mae'r broses hon yn parchu'r ffiniau cyfrinachedd hynny ac fe'i cedwir o dan gyd-ddealltwriaeth fel a ganlyn:
  - Bod cyfarfod y panel yn cael ei alw o dan arweiniad *'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion'* o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
  - Bydd datgelu gwybodaeth y tu hwnt i'r hyn a gytunir mewn cyfarfod o'r panel yn cael ei ystyried fel torri cyfrinachedd y sawl sydd dan sylw a thorri cyfrinachedd yr asiantaethau dan sylw.
  - Os teimlir bod caniatâd i ddatgelu yn hanfodol, dylid ceisio caniatâd cychwynnol gan gadeirydd y panel, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar yr egwyddor o 'angen gwybod'.
  - Fodd bynnag, Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n bennaf gyfrifol am ddatgelu gwybodaeth i drydydd parti gan y panel amlasiantaeth a rhaid ei gyfeirio at Reolwr Busnes y Bwrdd i gael awdurdod i'w datgelu.

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad y daeth yr wybodaeth i law: ……………………………… *(dyddiad)*

Anfonwyd llythyr cydnabod at gadeirydd y Bwrdd: ……………………………… *(dyddiad)*

Dosbarthwyd i arolygiaethau / arweinwyr polisi perthnasol: ……………………………… *(dyddiad)*

| Asiantaethau | Do | Naddo | Rheswm |
|---|---|---|---|
| AGGCC | | | |
| Estyn | | | |
| AGIC | | | |
| Cwnstabliaeth EF | | | |
| Arolygiaeth Prawf EF | | | |
| | | | |